Ffordd y Brenin

# 71/72 abertawe

# Beth bynnag yw eich barn – mae gan 71/72 le i chi_



Mae 71/72, datblygiad nodedig gan Gyngor Abertawe, yn cynnig gweithle rhagorol – yng nghanol project ailddatblygu Ffordd y Brenin yng nghanol dinas Abertawe.

Mae'r cynllun 104,000 troedfedd sgwâr yn cynnwys ardaloedd mewnol ac allanol arloesol cyhoeddus ac mae rhannau penodol o'r adeilad ar gael i'w llogi ar y farchnad agored, gan gynnwys, ardaloedd adwerthu, bwyd a diod, neuadd ddigwyddiadau, ardal weithio hyblyg / gyda gwasanaethau a 47,000 troedfedd sgwâr o swyddfeydd Gradd A.

Yn cynnig gweithle arloesol i fusnesau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn ne Cymru.




**Golwg allanol ar Ffordd y Brenin** (CGI)
Mae'r adeilad gwydr, dur a choncrid mewn safle amlwg ar Ffordd y Brenin.

360° taith

ffilm

Mae 71/72 yn rhan o broject adnewyddu Bargen Ddinesig Bae Abertawe a'r amcan allweddol yw targedu cyflogaeth sgiliau uwch yng nghanol dinas Abertawe.

# 71/72



**Mannau cyhoeddus**
Gweithio fel rydych chi'n dymuno ei wneud – gyda mannau cyhoeddus y tu mewn a'r tu allan i'r adeilad.



Gan gefnogi gweledigaeth a gwerthoedd Cyngor Abertawe i feithrin rhagoriaeth a dyhead, bydd yr adeilad yn cynnig dulliau cyfathrebu digidol arloesol i weithwyr a lleoliad delfrydol i fusnesau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol, yn ogystal â chyfleoedd twf a chymorth i gwmnïau newydd sbon yn y sectorau technoleg a chreadigol arloesol.

Mae'r project hwn yn rhan o daith Cyngor Abertawe i drawsnewid y ddinas gan ddilyn cynlluniau nodedig eraill – Pont 160 troedfedd Bae Copr a'r arena dan do, gwerth £135 miliwn, sy'n dal 3,500 o bobl.

Bydd y datblygiad defnydd cymysg yn cynnig gweithle nodedig, hyblyg, gyda'r adnoddau digidol diweddaraf, ynghyd â dyluniad sy'n rhoi lle blaenllaw i gynaliadwyedd.

Bydd yr adeilad yn cynnwys teras trawiadol ar y to ac atria ar hyd y lloriau uchaf. Bydd y mannau cyhoeddus unigryw yn cynnwys ardaloedd dynodedig i gynnal digwyddiadau a chyfarfodydd, a safleoedd gwerthu bwyd, diod ac adwerthu.

**Arena Abertawe**
Arena ddigwyddiadau newydd Abertawe yng nghanol y ddinas.



# Gweledigaeth

# Amgylcheddol, Cymdeithasol, a Llywodraethiant / lles

Mae 71/72 yn cynnwys nifer o fanylion dylunio a chyfleusterau ar y safle er mwyn gofalu am yr amgylchedd ehangach a defnyddwyr yr adeilad.

- Targed BREEAM Rhagorol
- Ardal amwynder i denantiaid ar do teras y 5ed llawr
- To glas
- Golygfeydd ar draws Abertawe ac i'r Mwmbwls
- Targed EPC A (23)
- Terasau a balconïau allanol
- Targed Sero Net ar waith
- Bleinds rheolaeth solar ar bob ffenestr
- System rheoli goleuadau DALI
- Ffactor Gwyrddu Dinesig 0.33
- Storfa feiciau ar lefel y stryd a man gwefru beiciau trydan
- Targed WiredScore Platinum
- Mynedfa i ardal amwynder allanol






**Prif dderbynfa** (CGI)

Mae'r brif dderbynfa ar y llawr gwaelod yn croesawu gweithwyr ac ymwelwyr gan arwain at ardaloedd gwaith a chymunedol, gan gynnwys lolfa fusnes ar y llawr gwaelod ynghyd â mynediad i'r storfa feiciau y tu allan.

# Cyfleusterau



Lle i 69 beic a man gwefru beiciau trydan

Cyfleusterau newid gyda 70 locer

8 cawod gan gynnwys 1 hygyrch

Teras ac ardal ddigwyddiadau ar y to

Awditoriwm a neuadd ddigwyddiadau

Lolfa fusnes

Cyfle ar gyfer siop goffi ac adwerthu

4 lifft i deithwyr



# gweithwyr




**Lefelau isaf** (CGI)

Mae lefelau isaf B1 a B2 yn cynnwys nifer o fannau wedi'u curadu, gan gynnwys fforwm grisiog, ystafelloedd cyfarfod, ardal dawel ac ardal ddigwyddiadau. Mae cyfleusterau newid/cawod ar lefel B2 hefyd.

# Crynodeb

Mae’r adeilad yn cynnwys nodweddion o safon uchel drwyddi draw, gan fodloni anghenion busnesau modern.



Gellir isrannu’r lloriau uchaf sy’n mesur 13,500 troedfedd sgwâr ar gyfartaledd

Lloriau mynediad uwch newydd 375mm

Darpariaeth ‘Changing Places’

Terasau allanol ar bob llawr

Ffenestr o’r llawr i’r nenfwd i roi golau naturiol gwych

Unedau ffaniau coil ar y nenfydau

Uchder o 3m rhwng y llawr a’r nenfwd ar loriau’r swyddfeydd

Grisiau rhyngysylltiedig ar lefelau’r gweithleoedd


Ffenestri y gellir eu hagor

Cyfradd meddiannaeth 1:10 m sgwâr

# o’r fanyleb

# Swyddfeydd / ardaloedd

| Lefel | Defnydd | tr sgwâr | m sgwâr | Argaeledd |
|---|---|---|---|---|
| 5 | Terasau To Cymunedol | 5,253 | 488 | Ardal Gymunedol |
| | Uned 5A - A3 / Digwyddiadau / Swyddfa | 1,367 | 127 | I'w osod |
| | Uned 5B – A3/ Digwyddiadau / Swyddfa | 1,238 | 115 | I'w osod |
| | Uned 5C – A3 / Ciosg Barista | 441 | 41 | I'w osod |
| 4 | Swyddfa | 13,433 | 1,248 | I'w osod |
| | Teras Allanol | | | Amwynder i Denantiaid |
| 3 | Swyddfa | 15,694 | 1,458 | I'w osod |
| | Teras Allanol | | | Amwynder i Denantiaid |
| 2 | Swyddfa | 15,845 | 1,472 | I'w osod |
| | Teras Allanol | | | Amwynder i Denantiaid |
| 1 | Swyddfa / Hyblyg | 16,017 | 1,488 | I'w osod |
| | Teras Allanol | | | Amwynder i Denantiaid |
| G | Derbynfa | 2,799 | 260 | Ardal Gymunedol |
| | Awditoriwm | 2,325 | 216 | Ardal Gymunedol |
| | Parcio ar gyfer 69 beic | | | Ardal Gymunedol |
| | Uned A - Swyddfa / Hyblyg | 1,238 | 115 | I'w osod |
| | Uned B - A3 / Adwerthu | 2,433 | 226 | I'w osod |
| | Uned C - A3 / Digwyddiadau | 1,238 | 115 | I'w osod |
| | Lolfa Fusnes | | | Amwynder i Denantiaid |
| | Cwrt Allanol | | | Ardal Gymunedol |
| | Uned D – Swyddfa / Hyblyg | 1,367 | 127 | I'w osod |
| B1 | Uned A - A3 / Digwyddiadau / Swyddfa | 732 | 68 | I'w osod |
| | Cwrt Allanol | | | Ardal Gymunedol |
| | Uned B - Swyddfa / Hyblyg / Ystafelloedd Cyfarfod | 1,302 | 121 | I'w osod |
| | Uned C – Swyddfa /Hyblyg | 1,152 | 107 | I'w osod |
| | Cwrt Allanol | | | Amwynder i Denantiaid |
| B2 | Cawodydd a Chyfleusterau Newid | 883 | 82 | Ardal Gymunedol |
| | Neuadd Ddigwyddiadau – Cynadleddau / Stiwdio Ymarfer | 4,187 | 389 | Ardal Gymunedol / I'w osod |
| | Uned A – Swyddfa / A3 / Iechyd | 4,758 | 442 | I'w osod |
| | Cwrt Allanol | | | Amwynder i Denantiaid |



**3ydd llawr CAT B** (CGI)

Mae'r lloriau plât llawr yn hyblyg ac yn agored gan roi rhwydd hynt i fusnesau ddylunio amgylchedd gwaith sy'n annog cynhyrchedd, cydweithio a lles y tîm.



**3ydd llawr CAT B** (CGI)

Mae'r platiau llawr yn golygu bod modd gosod desgiau mewn ffordd agored ac eang, ac mae digon o ardaloedd ymneilltuo. Mae'r lloriau uchaf yn cynnwys cyrtiau – gan gyflwyno'r dyluniad bioffilig allanol i'r amgylchedd gwaith.



**3ydd llawr CAT A** (CGI)

Mae'r lloriau agored a golau yn cynnwys ffenestri o'r llawr i'r nenfwd, ynghyd â therasau allanol ar loriau'r swyddfeydd. Gellir dewis cael grisiau rhyngysylltiol rhwng y lloriau hefyd.



**Teras to y 5ed llawr** (CGI)

Yn cynnig amgylchedd perffaith i weithwyr ac ymwelwyr ymlacio, dadflino, cyfarfod neu gydweithio. Mae'r lolfa gyhoeddus yn agor i'r teras sydd wedi'i dirlunio lle ceir golygfeydd ar draws y ddinas a'r môr.

# Cynlluniau llawr




Cynllun llawr heb ei luniadu wrth raddfa.
At ddibenion dangosol yn unig.

## B2


| Allwedd | Ardal | tr sgwâr | m sgwâr |
|---|---|---|---|
| | Uned A – Swyddfa / A3 / Iechyd | 4,758 | 442 |
| | Neuadd Ddigwyddiadau – Cynadledda / Stiwdio Ymarfer | 4,187 | 389 |

## B1

| Allwedd | Ardal | tr sgwâr | m sgwâr |
|---|---|---|---|
| | Uned A - A3 / Digwyddiadau / Swyddfa | 732 | 68 |
| | Uned B - Swyddfa / Hyblyg / Ystafelloedd Cyfarfod | 1,302 | 121 |
| | Uned C – Swyddfa /Hyblyg | 1,152 | 107 |




- Ystafelloedd Newid /Cawodydd
- Cwrt Allanol
- Craidd




- Awditoriwm
- Cyrtiau Allanol
- Craidd
- ‘Changing Places’

# Cynlluniau llawr



Cynllun llawr heb ei luniadu wrth raddfa.
At ddibenion dangosol yn unig.


## Llawr Gwaelod

| Allwedd | Ardal | tr sgwâr | m sgwâr |
|---|---|---|---|
| | Uned A – Swyddfa / Hyblyg | 1,238 | 115 |
| | Uned B - A3 / Adwerthu | 2,433 | 226 |
| | Uned C - A3 / Digwyddiad | 1,238 | 115 |
| | Uned D - Swyddfa / Hyblyg | 1,367 | 127 |


## Llawr Cyntaf

| Allwedd | Ardal | tr sgwâr | m sgwâr |
|---|---|---|---|
| | Swyddfa / Hyblyg | 16,017 | 1,488 |

Ffordd y Brenin




Ffordd y Brenin




Derbynfa
Lolfa Fusnes
Awditoriwm
Storfa Feiciau
Craidd

Teras
Craidd

# Cynlluniau llawr



Cynllun llawr heb ei luniadu wrth raddfa.
At ddibenion dangosol yn unig.


## Ail Lawr

| Allwedd | Ardal | tr sgwâr | m sgwâr |
|---|---|---|---|
| | Swyddfa | 15,845 | 1,472 |


## Trydydd Llawr

| Allwedd | Ardal | tr sgwâr | m sgwâr |
|---|---|---|---|
| | Swyddfa | 15,694 | 1,458 |

Ffordd y Brenin




Ffordd y Brenin




Teras
Craidd

Teras / Cwrt Allanol
Craidd

# Cynlluniau llawr

Cynllun llawr heb ei luniadu wrth raddfa.
At ddibenion dangosol yn unig.


## Pedwerydd Llawr

| Allwedd | Ardal | tr sgwâr | m sgwâr |
|---|---|---|---|
| (melyn) | Swyddfa | 13,433 | 1,248 |

## Pumed Llawr

| Allwedd | Ardal | tr sgwâr | m sgwâr |
|---|---|---|---|
| (oren golau) | Uned A - A3 / Digwyddiadau / Swyddfa | 1,367 | 127 |
| (oren golau) | Uned B – A3/ Digwyddiadau / Swyddfa | 1,238 | 115 |
| (llwyd-wyrdd) | Uned C – A3 / Ciosg Barista | 441 | 41 |
| (gwyrdd) | Teras To Cymunedol | 5,253 | 488 |

Ffordd y Brenin




Ffordd y Brenin




Teras / Cwrt Allanol
Craidd

Craidd

# Beth bynnag rydych chi'n ei hoffi – mae gan Abertawe le i chi _






Mae lleoliad 71/72 yng nghanol dinas Abertawe yn golygu bydd gan weithwyr fynediad hwylus i'r amwynderau lleol a chyfleusterau cymdeithasol amrywiol unrhyw bryd yn ystod y dydd.

I'r rheini sy'n chwilio am anturiaethau awyr agored cyn mynd i'r gwaith neu ar y ffordd adref – mae Traeth Bae Abertawe a'r Mwmbwls dafliad carreg i ffwrdd lle mae amrywiaeth eang o chwaraeon dŵr a gweithgareddau awyr agored ar gael.


71/72
Safle Gwaith Copr Hafod
Amgueddfa Genedlaethol y Glannau
Marchnad Abertawe
Gorsaf Drenau Abertawe
Yr Hwylbont
Afon Tawe
Gorsaf Fysiau Abertawe
Castell Abertawe
Y Ganolfan Ddinesig
Bae Copr Cam Un
Amgueddfa Abertawe
Y Marina
Y Mwmbwls
Stryd Rhydychen
Canolfan Siopa'r Quadrant
LC

# Yr ardal leol

**Traeth Abertawe**

Mae ardal Gŵyr yn enwog am ei harddwch a'i thraethau tywod euraidd, eang.





**The Lighthouse Bar & Kitchen**

Cyrchfan newydd yn Abertawe i gyfarfod, yfed a bwyta ym Mae Bracelet Bay, Y Mwmbwls.



**Coffee #1**

Coffi gwych gan faristas dawnus, a bwydlen anffurfiol mewn awyrgylch croesawgar.

**Siopa yn y ddinas**

Mae amrywiaeth eang o siopau yn ninas Abertawe, gan gynnwys Canolfan Siopa'r Quadrant.






**Founders & Co.**

Bwyd bendigedig a bîts artistig mewn neuadd fwyd, bar a man adwerthu.



**Arena Abertawe**

Canolfan adloniant a digwyddiadau amlbwrpas ddiweddaraf de Cymru.

# Yr ardal leol

Mae teithio o amgylch Abertawe yn hwylus iawn ac mae Gorsaf drenau a bysiau canolog Abertawe o fewn pellter cerdded. Mae sawl bws yn aros ar Ffordd y Brenin, ac mae'r stryd hefyd yn cynnwys llwybr beicio a mannau parcio i geir.

I deithio ymhellach, mae'r adeilad o fewn cyrraedd hwylus i'r M4 (4 milltir i ffwrdd) a'r rhwydwaith ffyrdd cenedlaethol.

**10**
munud ar droed i orsaf drenau canolog Abertawe

**05**
munud ar droed i orsaf fysiau canolog Abertawe

**52**
ar drên i orsaf Caerdydd

**1h 32m**
ar drên i orsaf Bristol Parkway

**2h 47m**
ar drên i orsaf Paddington Llundain

**2h 51m**
ar drên i orsaf Birmingham New Street




## Amwynderau

01 Arena Abertawe
02 Moda Coffee House
03 Cinema & Co.
04 The Gym Group
05 Copper Bar
06 Hansen at the Chelsea
07 Founders & Co.
08 The Oyster House
09 Gigi Gao's Chinese
10 Marchnad dan do
11 Pump House

# Ffeithiau allweddol

Abertawe yw ail ddinas fwyaf Cymru

Poblogaeth: 237,800 (Mehefin 2021)[1]

Canolfannau campws Prifysgol Abertawe, Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant a Choleg Gŵyr

Cronfa dalent – 29,000 o fyfyrwyr amser llawn (2021-22)[2]

7,735 o fusnesau gweithredol yn Abertawe yn 2021[3]

27,000 o bobl yn cymudo i Abertawe bob dydd (2022)[4]

80.5% o breswylwyr oedran gwaith Abertawe (16-64) yn weithgar yn economaidd[5]

Enillion cyfartalog gweithwyr amser llawn yw £593.10 yr wythnos a £30,262 y flwyddyn.[6]



1. 2021 – rhagolygon poblogaeth canol blwyddyn, ONS. Mae rhagor o ystadegau, gan gynnwys y boblogaeth yn ôl oedran, ar gael yn www.swansea.gov.uk/population.
2. Ystadegau Addysg Bellach ac Uwch 2021-22, Higher Education Statistics Agency (HESA) a LlC (cyhoeddwyd Ionawr-Chwefror 2023).
3. Ystadegau demograffeg busnesau 2021, ONS. 4. Cofrestr Busnesau ac Arolwg Cyflogaeth (BRES) rhagolygon yn seiliedig ar y gweithle 2021, ONS.
b) Tablau cymudo 2022, cyhoeddwyd gan LlC gan ddefnyddio amcangyfrifon APS. 5. Rhagolygon APS ar gyfer cyfnod yr arolwg a ddaeth i ben Rhagfyr 2022, ONS.
6. Arolwg Blynyddol Oriau ac Enillion (ASHE) Ebrill 2022, ONS.

# Abertawe

# Rhagor o wybodaeth

## Telerau

Ar gael ar gais.

## Dangosiadau

Trwy drefniant gyda'r asiantaeth gosod eiddo yn unig.


JLL

**Rhydian Morris**
rhydian.morris@jll.com
07792 273 120

AVISON YOUNG

**Chris Terry**
chris.terry@avisonyoung.com
07793 269 442


360° taith

ffilm


Deddf Camliwio 1967 – Er y credir bod yr holl wybodaeth yn y llyfryn hwn yn gywir, nid yw'r asiant na'r cleient yn gwarantu ei bod yn gywir ac ni fwriedir iddi ffurfio rhan o unrhyw gontract. Mae'r holl arwynebeddau a nodir wedi'u hamcangyfrif. Hydref 2023.



Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan Cre8te – 020 3468 5760 – cre8te.london


## Prosiect adfywio Bargen Ddinesig Bae Abertawe

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyngor Abertawe
Swansea Council

UK Government
Llywodraeth y DU

Bargen Ddinesig
BAE ABERTAWE
SWANSEA BAY
City Deal

**7172thekingsway.com**